Hawdd ei Ddeall

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Eich canllaw i'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Taflen Ffeithiau Hawdd ei Ddeall 6: Talu am ofal

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Llywio Gwasanaethau Cymdeithasol. Taflen Ffeithiau 6: Talu am Ofal.'**

Mawrth 2023

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Mae geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 38**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru

Ffôn: 03442 640 670

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd i'w deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif Trwydded Photosymbols yw 403527247

Cynnwys

Tudalen

Am Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru....4

Talu am eich gofal a'ch cymorth....6

Asesiadau Ariannol....11

Ar ôl yr asesiad ariannol....16

Ffioedd cyfradd fflat....17

Asesiad ariannol i bobl sy'n byw yn eu cartref eu hunain....19

Pethau'n cael eu cynnwys yn eich asesiad ariannol....21

Swm Isafswm incwm....23

Uchafswm Tâl Wythnosol am ofal a chymorth yn eich cartref...24

Sut fydd eich uchafswm tâl wythnosol yn cael ei weithio allan.....25

Pethau'n cael eu cynnwys yn eich asesiad ariannol i gartref gofal....26

Diystyriadau eidddo....28

Swm Isafswm Incwm....33

Cost ychwanegol....34

Taliadau wedi'u gohirio....36

Amddifadedd asedau....37

Geiriau anodd....38

Am Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** yn gwarchod a hyrwyddo hawliau pobl hŷn ar draws Cymru.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn sicrhau bod pobl hŷn:

- yn gallu rhannu beth maen nhw'n feddwl
- cael dewis a rheolaeth
- peidio â theimlo'n unig
- cael y gefnogaeth a'r gwasanaethau maen nhw eu hangen .
- dim **gwahaniaethu** yn eu herbyn.

Mae **gwahaniaethu** yn meddwl pan fyddwch chi yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich oedran, rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

Mae'r **Comisiynydd** a'i thîm yn gweithio i wneud Cymru'n lle da i dyfu'n hŷn ynddo.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

Ebost: gofyn@comisiynyddph.cymru

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Twitter: @talkolderpeople

Talu am eich gofal a'ch cymorth

Mae **awdurdodau lleol** yn gallu codi tâl arnoch chi am y cymorth maen nhw'n ei roi i chi.

Eich **awdurdod lleol** ydy eich cyngor.

Fe fydd beth rydych chi'n ei dalu yn dibynnu os ydych chi'n cael gofal:

- Cartref gofal.
- Eich cartref eich hun.
- Y gymuned.

Dim ond i chi y mae'r **awdurdod lleol** yn gallu codi'r arian y mae'n ei gostio iddyn nhw ddarparu eich gofal a'ch cymorth. Ond efallai y byddan nhw'n codi tâl arnoch chi am drefnu'r gofal a'r cymorth hefyd.

Os ydych chi yn ofalwr ac yn cael cymorth gan eich awdurdod lleol, efallai na fyddwch chi yn codi tâl. Ond mae awdurdodau lleol yn gallu codi tâl am gymorth gofalwyr os ydyn nhw'n dymuno.

Ni ddylai awdurdod lleol godi tâl arnoch chi am:

- Trafnidiaeth i fynd i wasanaeth dydd. Os ydy trafnidiaeth yn cael ei ddarparu gan eich awdurdod lleol. Ac mae'n rhan o'ch cynllun gofal a chymorth.

- **Ail-alluogi**. Am hyd at y 6 wythnos gyntaf.

Math o ofal ydy **ail-alluogi** sy'n eich helpu chi i ailddysgu pethau bob dydd fel coginio a golchi ar ôl i chi fod yn yr ysbyty neu wedi bod yn sâl. Y bwriad ydy eich helpu chi i ddod yn ôl i normal ac aros yn annibynnol.

- **Eiriolaeth** i’ch helpu chi wneud penderfyniadau am eich gofal a’ch cymorth.

Eiriolaeth ydy pan mae rhywun yn eich helpu chi ac yn codi llais ar eich rhan chi i ddweud beth rydych chi eisiau ei ddweud. A gwneud i bethau ddigwydd.

- **Gwybodaeth a chyngor**. Gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn â faint o arian y mae’n rhaid i chi ei dalu am eich gofal a’ch cymorth.

Hefyd, rhaid i awdurdod lleol beidio â chodi tâl am ofal a chymorth i:

- Person sydd â chlefyd **Creutzfeldt-Jakob**. Gelwir clefyd **Creutzfeldt-Jakob** hefyd yn **CJD.** Mae’n anhwylder prin ar yr ymennydd sy’n arwain at dementia.

- Gwasanaethau ôl-ofal ar gyfer iechyd meddwl.

Mae’n rhaid i awdurdod lleol wneud **asesiad ariannol** er mwyn gweld ydych chi yn gallu talu am eich gofal a’ch cymorth.

Mae **asesiad ariannol** yn edrych ar:

- Yr arian sydd gennych chi i fyw arno bob wythnos.
- Faint sy’n rhaid i chi dalu am bethau fel rhent a threth cyngor.
- Faint sydd gennych chi mewn cynilion.

Fe fydd yr **asesiad ariannol** yn dweud os ydych chi yn gallu fforddio talu’r tâl safonol am eich gofal a’ch cymorth neu’n methu fforddio talu’r tâl safonol am eich gofal a’ch cymorth.

Os **nad oes gan berson gapasiti**, rhaid i awdurdodau lleol siarad ag aelodau o'u teulu. A chydweithio gyda'r person sydd â'r hawl gyfreithiol i wneud penderfyniadau ariannol ar eich rhan.

Mae **diffyg capasiti** yn meddwl nad ydy meddwl person yn gweithio fel y dylai am ryw reswm. Ac mae hyn yn meddwl nad ydyn nhw'n gallu gwneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain bryd hynny.

Efallai nad oes gan rywun gapasiti oherwydd pethau fel:

- anabledd, salwch, neu anaf
- dementia
- problem iechyd meddwl

Os ydych chi yn y carchar, gellir dal i godi tâl arnoch am eich gofal a'ch cymorth. Fe fyddwch chi yn cael **eich asesu'n ariannol**.

Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar Rheoliadau Gofal a Chymorth 2015 a Rhannau 4 a 5 o'r Cod Ymarfer.

Asesiadau Ariannol



Cyn gwneud **asesiad ariannol,** rhaid i'ch **awdurdod lleol** roi gwybodaeth i chi am:

- Eich gofal a'ch cymorth a pha wasanaethau y byddwch chi efallai yn gorfod talu amdanyn nhw.

- Unrhyw **daliadau uniongyrchol** yr ydych chi eisiau eu cael.

- Eu polisi codi tâl. Dyma ddogfen gyda rheolau ynglŷn â pha wasanaethau maen nhw'n codi tâl amdanyn nhw a faint maen nhw'n ei gostio.

- Y broses **asesu ariannol**.

- Pa wybodaeth neu ddogfennau rydych chi eu hangen. Rhaid i'r **awdurdod lleol** roi o leiaf 15 diwrnod gwaith i chi roi'r wybodaeth yma iddyn nhw.

- Os ydych chi angen mwy o amser i roi gwybodaeth, rydych chi'n gallu gofyn i'ch **awdurdod lleol** am fwy o amser. Os ydyn nhw'n dweud na, rhaid iddyn nhw ddweud wrthych chi pam nad ydyn nhw'n gallu rhoi mwy o amser i chi.

- Beth fydd yn digwydd os na fyddwch chi yn caniatáu i'r **awdurdod lleol** wneud **asesiad ariannol**.

- Canlyniadau eich **asesiad ariannol** a faint maen nhw'n meddwl rydych chi'n gallu fforddio talu am eich gofal a'ch cymorth yn seiliedig ar hynny.

- Pa gefnogaeth rydych chi'n gallu ei gael gan eich **awdurdod lleol**.

- **Terfyn cyfalaf**. Dyma'r swm rydych chi'n gallu ei gael mewn cynilion neu fod yn berchen mewn eiddo cyn i chi orfod dechrau talu mwy am eich gofal a'ch cymorth.

- Help gyda llenwi ffurflenni.

- Pobl rydych chi'n gallu cysylltu gyda nhw yn yr **awdurdod lleol** os ydych chi angen mwy o wybodaeth neu help yn ystod eich **asesiad ariannol**.

- Eich hawl i gael rhywun yn eich helpu chi neu i wneud penderfyniadau i chi yn ystod rhai neu'r holl **aseswyr ariannol**. Manylion cyswllt efydliadau sydd yn gallu gwneud hyn.

Mewn rhai achosion, does dim rhaid i awdurdod lleol wneud **asesiad ariannol** os:

- Cyfradd fflat ydy taliadau gwasanaeth - dyma swm penodol o arian rydych chi'n ei dalu am wasanaethau.
- Rydych chi'n dweud na wrth **asesiad ariannol.**
- Dydych chi ddim yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen mewn pryd.

- Mae gennych chi **glefyd Creutzfeldt-Jakob (CJD).**
- Rydych chi'n cael ôl-wasanaeth gofal ar gyfer iechyd meddwl.
- Rydych chi angen gwasanaethau **ail-alluogi**. Am hyd at y 6 wythnos gyntaf.
- Dim ond gwasanaethau **eiriolaeth** rydych chi eu hangen.

Fe ddylai **Awdurdodau lleol** roi gwybodaeth a chyngor i chi am ba fuddion fydd yn cael eu cynnwys yn yr **asesiad ariannol**.

Mae **asesiad ariannol** yn digwydd unwaith y flwyddyn.

Maen nhw yn gallu eich **asesu** eto os ydy:

- Eich sefyllfa yn newid.

- Neu os ydych chi'n gofyn iddyn nhw ei wneud eto.

Ar ôl yr asesiad ariannol

Ar ôl yr asesiad ariannol awdurdod lleol roi datganiad rhaid i'ch awdurdod lleol roi datganiad i chi sy'n dweud:

- Faint sy'n rhaid i chi ei dalu. A pha mor aml.
- Sut mae'r **asesiad ariannol** wedi'i wneud.
- Pa gymorth ariannol fyddwch chi'n ei gael. A pha mor aml y byddwch chi yn cael eich talu.
- Unrhyw wahaniaethau mewn taliadau ar adegau penodol a pham bod gwahaniaethau.

Fe ddylech chi gael gwybodaeth yn y ffordd sy'n gweddu orau i'ch anghenion.

Fe ddylai'r **datganiad** gael ei rhoi gyda'ch **cynllun gofal a chymorth** neu ar wahân.

Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar Rheoliadau Gofal a Chymorth 2015, Rheoliadau Gofal a Chymorth 2017 a Rhannau 4 a 5 o'r Cod Ymarfer.

Ffioedd cyfradd fflat

Mae tâl cyfradd fflat yn swm penodol o arian rydych chi'n ei dalu am wasanaethau.

Mae **awdurdodau lleol** yn gallu gosod tâl cyfradd fflat am ofal a chymorth lefel isel, cost isel. Er enghraifft, pethau o ddydd i ddydd fel prydau bwyd neu olchi dillad.

Rhaid i **awdurdodau lleol** beidio â chodi cyfradd fflat ar gyfer pob gofal a chymorth. Mae'n gyfraith.

Ni ddylai'r gyfradd fflat fod yn fwy na'r swm y mae'n ei gostio i ddarparu'r gwasanaeth.

Os oes gan y gwasanaeth rydych chi'n ei ddefnyddio dâl cyfradd fflat, does dimrhaid i'ch **awdurdod lleol** wneud **asesiad ariannol**.

Os ydych chi yn talu am fwy nag 1 gwasanaeth cyfradd fflat rhaid i'ch **awdurdod lleol** feddwl sut mae hyn yn adio i fyny i chi. Yn y sefyllfa yma rhaid i'ch awdurdod lleol gynnig **asesiad ariannol** i chi.

Mae eich **awdurdod lleol** hefyd yn gallu codi cyfradd fflat ar gyfer **gwasanaethau ataliol**. Mae **gwasanaethau ataliol** yn meddwl unrhyw wasanaethau sy'n eich cefnogi cyn i broblem fynd yn ddrwg. Mae hyn yn gallu bod yn help gyda rheoli arian. Neu gwneud newidiadau i'ch cartref sy'n eich helpu i aros yn annibynnol.

Am fwy o wybodaeth, darllenwch: Rheoliadau Gofal a Chymorth 2015 a'r Cod Ymarfer Rhan 4 a 5.

Asesiad ariannol i bobl sy'n byw yn eu cartref eu hunain

Wrth wneud **asesiad ariannol** rhaid i'ch **awdurdod lleol** weithio allan eich cyfalaf. Eich cyfalaf ydy faint o arian sydd gennych chi. Mae'n cynnwys eich cynilion ac eiddo. Ac unrhyw arian ychwanegol rydych chi'n ei wneud.

Am fwy o wybodaeth darllenwch Reoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015.

Does dim rhaid i chi gynnwys eich **prif gartref** fel cyfalaf.

Os ydy eich cyfalaf yn fwy na £24 mil:

- Fe fydd rhaid i chi dalu cost lawn eich gofal a'ch cymorth.
- Mae'n dal yn bosib i chi ofyn i'ch awdurdod lleol drefnu eich gofal a chymorth.
- Fe fydd rhaid i chi dalu hyd at £100 bob wythnos nes bod eich cyfalaf yr un lefel neu'n is na'r terfyn o £24 mil.



Os ydy eich cyfalaf yn £24 mil neu lai:

- Fe fyddwch chi yn cael eich asesu i weld faint rydych chi'n gallu fforddio ei dalu tuag at eich gofal a'ch cymorth.
- Does dim rhaid i chi dalu am gost eich gofal a'ch cymorth o'r cynilion sydd gennych chi.

Am fwy o wybodaeth, darllenwch: Rheoliadau Gofal a Chymorth 2015 a'r Cod Ymarfer Rhan 4 a 5.

Pethau'n cael eu cynnwys yn eich asesiad ariannol

Fe fydd eich **awdurdod lleol** yn edrych i weld faint o arian rydych chi yn ei wneud i weld faint rydych chi'n gallu fforddio ei dalu. Ddylai eich cyflogau o'r gwaith ddim gael ei gynnwys yn yr **asesiad ariannol**.

Maen nhw'n gallu **asesu incwm ar y cyd** chi a'ch partner, ond dim ond os ydy hynny o fantais i chi.

Fe fydd arian o'r rhan fwyaf o fudd-daliadau lles yn cael ei gynnwys yn yr **asesiad ariannol**.

Dyma'r budd-daliadau fydd ddim yn cael eu cynnwys:

- Taliadau uniongyrchol
- Taliadau Incwm Gwarantedig sydd yn cael eu gwneud i Gyn-filwyr o dan y Lluoedd Arfog
- Cynllun Iawndal
- Elfen symudedd Lwfans Byw i'r Anabl
- Elfen symudedd Taliadau Annibyniaeth Personol
- Credyd Treth Gwaith

Fe ddylai eich **awdurdod lleol** ganiatáu i chi gadw digon o'r budd-daliadau i dalu am y pethau rydych chi eu hangen sydd ddim yn cael eu cynnwys yn eich gofal a'ch cymorth.

Am fwy o wybodaeth, darllenwch: Rheoliadau Gofal a Chymorth 2015 a'r Cod Ymarfer Rhan 4 a 5.

Rydych chi'n gallu dysgu pa bethau sydd ddim yn cael eu cynnwys yn yr asesiad ariannol yma: Cod Ymarfer Rhannau 4 a 5 (Codi Tâl ac Asesu Ariannol).

Swm Isafswm incwm

Os ydych chi yn cael gofal a chymorth yn eich cartref, fe fydd dal angen i chi dalu am eich costau byw bob dydd. Er enghraifft, rhent a bwyd.

Mae'n rhaid i'ch **awdurdod lleol** wneud yn siŵr bod gennych chi ddigon o arian bob wythnos i dalu'r costau yma. Mae hyn yn cael ei alw yn **swm isafswm incwm**.

Roedd **Swm Isafswm Incwm** yn cael ei alw yn **Lwfans Treuliau Personol** o'r blaen.

Rhaid i'ch **awdurdod lleol** wneud yn siŵr eich bod yn cael eich gadael gyda digon o arian. Ni ddylech chi ddefnyddio'r arian yma i dalu am eich gofal a'ch cymorth.

Am fwy o wybodaeth darllenwch: Rheoliadau Gofal a Chymorth 2015

Uchafswm Tâl Wythnosol am ofal a chymorth yn eich cartref

Ddylai eich awdurdod lleol **ddim** codi mwy na £100 yr wythnos arnoch chi am yr holl ofal a chymorth rydych chi'n ei gael.

Os ydy cost eich gofal a'ch cymorth yn llai na'r £100, fe fyddwch chi'n talu llai.

Fydd yr **uchafswm y tâl wythnosol** ddim yn cynnwys cost unrhyw wasanaethau cyfradd fflat.

Fe fydd rhaid i chi dalu am wasanaethau cyfradd fflat a'r **uchafswm tâl wythnosol.**

Sut fydd eich uchafswm tâl wythnosol yn cael ei weithio allan

Fe fydd eich awdurdod lleol yn:

- Gweithio allan cost eich holl ofal a chymorth
- Tynnu cost unrhyw wasanaethau sy'n codi cyfradd fflat
- Gwneud y tâl wythnosol uchaf o £100 am ofal a chymorth. Neu swm is os ydy cost eich gofal a'ch cymorth yn llai na £100
- Gweld os ydych chi'n gallu fforddio talu tuag at y gost hon.

I gael rhagor o wybodaeth am yr Uchafswm Tâl Wythnosol darllenwch:

Reoliadau Gofal a Chymorth 2015

Rheoliad 3 o Reoliadau Gofal a Chymorth 2017 a'r

Cod Ymarfer Rhan 4 a 5 (Codi Tâl ac Asesu Ariannol).

Asesiad Ariannol i bobl sy'n byw mewn cartref gofal

Wrth wneud **asesiad ariannol** i ofal a chymorth mae'n rhaid i'ch **awdurdod lleol**:

- Gweithio allan eich **cyfalaf** - eich cynilion a'ch eiddo. Fe fydd hyn hefyd yn cynnwys unrhyw arian ychwanegol y byddwch yn ei wneud.

Am fwy o wybodaeth darllenwch Reoliadau Gofal a Chymorth 2015.

Os ydy eich cyfalaf dros £50 mil:

- Fe fydd rhaid i chi dalu cost llawn eich gofal a'ch cymorth nes bod eich cyfalaf yn £50 mil neu lai.

- Mae'n dal yn bosib i chi ofyn i'ch awdurdod lleol drefnu eich gofal a chymorth.



Os ydy eich cyfalaf yn £50 mil neu lai:

- Fe fyddwch chi yn cael eich asesu i weld faint rydych chi'n gallu fforddio ei dalu tuag at eich gofal a'ch cymorth.

Am fwy o wybodaeth, darllenwch Reoliadau Gofal a Chymorth 2015 a'r Cod Ymarfer Rhan 4 a 5.

Diystyriadau eiddo

Os ydych chi n mynd i gael gofal a chymorth mewn cartref gofal fe fydd gwerth **eich cartref** yn cael ei gynnwys yn eich **cyfalaf**.

Weithiau bydd eich awdurdod lleol yn penderfynu peidio â chynnwys gwerth eich cartref yn eich prifddinas. Gelwir hyn yn **ddiystyru eiddo**.

Mae **diystyriadau eiddo'n** berthnasol os:

- Rydych chi yn cael gofal a chymorth tymor byr mewn cartref gofal ac fe fyddwch chi yn mynd yn ôl adref.

- Rydych chi yn cael gofal a chymorth tymor byr mewn cartref gofal , ac rydych chi yn meddwl gwerthu'ch cartref i gael cartref gwell.

- Rydych chi yn cael gofal a chymorth mewn cartref gofal, a dydych chi ddim yn byw yn eich cartref. Ond mae gennych chi bobl sy'n byw yn eich cartref fel:

  - Eich partner, partner sifil neu gyn-bartner.

  - Eich cyn-bartner gyda phlentyn.

  - Eich teulu neu'ch perthynas sydd dros 60 oed neu'n blentyn o dan 18 oed.

Dim ond os ydych chi wedi bod yn byw yn eich cartref y bydd y **diystyriadau eiddo** yn berthnasol cyn i chi symud i gartref gofal.

Mae eich **awdurdod lleol** yn gallu edrych i weld os ydy eich teulu yn byw yn eich cartref.

Os ydy aelodau eich teulu yn byw yn rhywle arall ar gyfer pethau fel swyddi, ond eich cartref ydy eu prif gartref a'u unig gartref, fe fydd y **diystyriadau eiddo** yn berthnasol.

Mae eich **Awdurdod Lleol** yn gallu defnyddio **diystyriadau eiddo** mewn sefyllfaoedd eraill hefyd. Er enghraifft, os ydy'r person sy'n byw yn eich cartref wedi rhoi'r gorau i'w gartref i fod yn ofalwr i chi.

Os ydy eich cyfalaf yn is na £50 mil, rhaid i'ch **awdurdod lleol** wneud cais am **diystyriadau eiddo** am 12 wythnos er mwyn rhoi amser i chi wneud penderfyniadau ar sut i dalu am gostau eich cartref gofal.

Pan:

- Rydych chi yn mynd i mewn i gartref gofal i ddechrau.
- Neu os ydy eich perthynas oedd yn byw yn eich cartref yn marw neu'n symud i gartref gofal.

Mae eich awdurdod lleol yn gallu gwneud cais am ddiystyriadau eiddo am 12 wythnos os oes newid yn eich sefyllfa

Am fwy o wybodaeth, darllenwch: Rheoliadau Gofal a Chymorth 2015 a'r Cod Ymarfer Rhan 4 a 5.

Pethau sydd yn cael eu cynnwys yn eich asesiad ariannol i gartref gofal

Fe fydd eich awdurdod lleol yn edrych i weld faint o arian rydych chi yn ei wneud i weld faint rydych chi'n gallu fforddio ei dalu. Ddylai eich cyflog o'ch gwaith **ddim** gael ei gynnwys yn yr **asesiad ariannol**.

Maen nhw yn gallu **asesu** incwm ar y cyd chi a'ch partner, ond dim ond os ydy hynny o fantais i chi.

Fe fydd arian o'r rhan fwyaf o fudd-daliadau lles yn cael ei gynnwys yn yr **asesiad ariannol**.

Dyma'r budd-daliadau fydd ddim yn cael eu cynnwys:

- **Taliadau uniongyrchol**
- Taliadau Incwm Gwarantedig sydd yn cael eu gwneud i Gyn-filwyr o dan y Lluoedd Arfog
- Cynllun iawndal
- Yr elfen symudedd o Lwfans Byw i'r Anabl ;
- Yr elfen symudedd o Daliadau Annibyniaeth Personol
- Credyd Treth Gweithio

Fe ddylai eich **awdurdod lleol** ganiatáu i chi gadw digon o'r budd-daliadau i dalu am y pethau rydych chi eu hangen sydd ddim yn cael eu cynnwys yn eich gofal a'ch cymorth.

Am ragor o wybodaeth, darllenwch Reoliadau Gofal a Chymorth 2015 a'r Cod Ymarfer Rhan 4 a 5.

Rydych chi'n gallu dysgu pa bethau fydd ddim yn cael eu cynnwys yn yr **asesiad ariannol** yma: Cod Ymarfer Rhannau 4 a 5 (Codi Tâl ac Asesu Ariannol).

Swm Isafswm Incwm

Roedd Swm Isafswm Incwm yn cael ei alw yn **Lwfans Treuliau Personol** o'r blaen.

Rhaid i'ch awdurdod lleol wneud yn siŵr bod gennych chi ddigon o arian bob wythnos ar gyfer pethau rydych chi eisiau eu prynu. Mae hyn yn cael ei alw yn **swm isafswm incwm**.

Ddylai eich awdurdod lleol ddim rhoi gwybod i chi sut i wario'ch **isafswm incwm**.

Ddylech chi ddim defnyddio'r arian yma i dalu am eich gofal a'ch cymorth.

Rhaid i'ch awdurdod lleol beidio â'ch gadael gyda llai na £33 yr wythnos.

Weithiau efallai y bydd angen mwy na'ch **Swm Isafswm Incwm**.

I gael mwy o wybodaeth am y S**wm Isafswm Incwm** darllenwch:

Rheoliadau Gofal a Chymorth 2015

Rheoliad 3 o Reoliadau Gofal a Chymorth 2017 a'r

Cod Ymarfer Rhan 4 a 5.

Cost ychwanegol

Rhaid i'ch awdurdod lleol drefnu eich cartref gofal. Rydych chi'n gall dewis eich cartref gofal.

Am fwy o wybodaeth am Dewis Cartref Gofal edrychwch Nhaflen Ffeithiau 4.

Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm y byddai eich awdurdod lleol yn talu amdano, a gwir gost eich cartref gofal dewisol yn cael ei alw yn g**ost ychwanegol.**

Fe fydd rhaid talu am y **gost ychwanegol rhywsut**.

Fe fydd eich awdurdod lleol yn gwneud yn siŵr bod y person sy'n talu'r **gost ychwanegol** yn deall y rheolau.



Mae'n bosib y byddan nhw'n gofyn am brawf gan yr unigolyn sy'n talu'r **gost ychwanegol** er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gallu fforddio talu'r arian.

Os ydych chi'n gorfod aros mewn cartref gofal drytach gan nad oedd eich awdurdod lleol yn gallu dod o hyd i gartref gofal rhatach mae'n rhaid i'r **awdurdod lleol** dalu'r **gost ychwanegol**.

Am fwy o wybodaeth am gost ychwanegol, darllenwch: Rhannau 4 a 5 Cod Ymarfer.

Taliadau wedi'u gohirio

Os ydych chi yn cael eich gofal a'ch cymorth drwy gartref gofal, mae gennych chi hawl i wneud cais am **daliad wedi ei ohirio.**

Fe fydd cytundeb **taliad wedi ei ohirio** yn gohirio talu eich costau gofal a chymorth tan ddyddiad yn nes ymlaen.

Dydy hyn ddim n canslo'r taliad. Fe fydd eich awdurdod lleol yn rhoi'r taliad fel benthyciad y byddwch chi wedyn yn ei dalu'n ôl.

Rydych chi'n gallu cael cytundeb **taliad wedi ei ohirio** dim ond os ydy gwerth eich cartref yn ddigon i dalu am gost y benthyciad, y llog a ffioedd eraill.

Fe fydd eich awdurdod lleol yn gweithio allan cost a ffioedd y **taliad wedi ei ohirio** cyn gwneud cytundeb.

Rhaid i'ch awdurdod lleol ddweud wrthych chi beth ydy'r gyfradd llog sydd yn cael ei godi cyn i chi arwyddo'r cytundeb.

Os ydych chi yn gymwys i gael **taliad wedi'i ohiri**o, fe ddylai eich awdurdod lleol roi gwybodaeth i chi yn y ffordd sy'n gweddu orau i'ch anghenion.

Amddifadedd asedau

Mae **amddifadedd asedau** yn meddwl eich bod wedi gwneud eich cynilion yn llai er mwyn osgoi talu am eich gofal a'ch cymorth. Er enghraifft, rydych chi wedi trosglwyddo eich cynilion neu eiddo i rywun arall er mwyn osgoi talu am y gofal.

Mae eich awdurdod lleol yn gallu parhau i'ch asesu fel pe bai gennych y cynilion neu'r eiddo hynny o hyd.

Am fwy o wybodaeth darllenwch: Rhannau 4 a 5 Cod Ymarfer.

Geiriau anodd

Amddifadedd asedau

Mae amddifadedd asedau yn meddwl eich bod chi wedi gwneud eich cynilion yn llai er mwyn osgoi talu am eich gofal a'ch cymorth. Er enghraifft, rydych chi wedi trosglwyddo eich cynilion neu eiddo i rywun arall er mwyn osgoi talu am y gofal.

Asesiad ariannol

Mae asesiad ariannol yn edrych ar:

- Faint o arian sydd gennych chi i fyw arno bob wythnos.
- Faint sy'n rhaid i chi dalu am bethau fel rhent a threth cyngor.
- Faint sydd gennych chi mewn cynilion.

Ail-alluogi

Math o ofal ydy ail-alluogi sy'n eich helpu i ailddysgu pethau bob dydd fel coginio a golchi ar ôl i chi fod yn yr ysbyty neu wedi bod yn sâl. Y bwriad ydy eich helpu i ddod yn ôl i normal ac aros yn annibynnol.

Diffyg capasiti

Mae diffyg capasiti yn golygu nad ydy meddwl person yn gweithio fel y dylai am ryw reswm. Ac mae hyn yn meddwl nad ydyn nhw yn gallu gwneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain bryd hynny.

Efallai nad oes gan rywun gapasiti oherwydd pethau fel:

- anabledd, salwch, neu anaf
- Dementia
- problem iechyd meddwl

Eiriolaeth

Eiriolaeth ydy pan mae rhywun yn eich helpu chi ac yn codi llais ar eich rhan chi i ddweud beth rydych chi eisiau ei ddweud. A gwneud i bethau ddigwydd.

Gwahaniaethu

Mae gwahaniaethu yn meddwl pan fyddwch chi yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich oedran, rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.